GWASANAETH
LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S
COURTS SERVICE

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi

**Dogfen Fframwaith**

# Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
# Dogfen Fframwaith

1 Ebrill 2005

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol | 04 |
| | Cyflwyniad | 06 |
| | Pwrpas, Gweledigaeth ac Amcanion | 08 |
| 1 | Gwasanaethu Defnyddiwr y Llys | 09 |
| 2 | Y Berthynas gyda'r Farnwriaeth | 11 |
| 3 | Atebolrwyddau | 13 |
| 4 | Atebolrwydd i'r Senedd | 15 |
| 5 | Y Drefn Ariannol | 17 |
| 6 | Archwilio ac Arolygu | 21 |
| 7 | Gwasanaethau Cefnogi | 23 |
| 8 | Adnoddau Dynol | 24 |
| 9 | Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth | 26 |
| 10 | Adolygu ac Amrywio'r Ddogfen Fframwaith | 27 |
| | Atodiad | 28 |
| | Dirprwyaethau Ariannol | 28 |

Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol

Mae'n bleser gennyf sefydlu Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi fel asiantaeth weithredol o 1 Ebrill 2005.

Mewn cyfnod o newid nas gwelwyd ei debyg o'r blaen yn y system gyfiawnder, bydd Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn gweithio i gadw'r hyn oedd orau yn y Gwasanaeth Llys a'r 42 Pwyllgor y Llysoedd Ynadon, gan ddatblygu eu harbenigedd a'u hymrwymiad i ddarparu cyfiawnder, a pharhau i weithio'n agos gyda'r farnwriaeth.

Yn y bôn, pwrpas Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yw ailgyfeirio gwasanaethau'r llysoedd at y bobl sy'n dibynnu arnynt bob dydd. Mae gan y system gyfiawnder effaith hollbwysig ar fywydau bob dydd y cyhoedd, a bydd Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn defnyddio'r cyfleoedd a ddarperir gan system weinyddol unedig ar gyfer llysoedd i wneud rhagor o welliannau trwy ddull gweithredu mwy ymatebol i ddarparu gwasanaethau.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn cyflwyno'i wasanaethau mewn modd integredig, gan weinyddu gwaith y llysoedd ar draws yr awdurdodaethau troseddol, sifil a theulu a darparu mwy o gysondeb wrth reoli perfformiad.

Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi'r berthynas atebolrwydd allweddol rhwng Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, yr Adran Materion Cyfansoddiadol a Gweinidogion. Yn ogystal â'r ddogfen fframwaith, mae Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn cyhoeddi ei Gynllun Busnes sy'n gosod cyfeiriad yr asiantaeth am y 12 mis canlynol ac fe'i diweddarir yn flynyddol i osod yn glir y prif flaenoriaethau y bydd yr asiantaeth am eu cyflwyno. Datblygir cynllun strategol cyntaf Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn ystod 2005-06 wrth i'r asiantaeth newydd ddatblygu mwy ar y llinynnau busnes.

Rwyf yn hyderus y bydd Syr Ron De Witt a staff Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn adeiladu ar waith da'r asiantaethau blaenorol a darparu gwasanaethau llysoedd i'r cyhoedd sy'n gwella'n barhaus.

Yr Arglwydd Ganghellor
a'r Ysgrifennydd Gwladol

# Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLlEM) yn un o asiantaethau gweithredol yr Adran Materion Cyfansoddiadol (AMC). Mae Prif Weithredwr GLlEM yn atebol i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol..

Mae gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol (Dan Adran 1 Deddf Llysoedd 2003), ddyletswydd i sicrhau bod system effeithiol ac effeithlon ar gael i gefnogi busnes y Llys Apêl, yr Uchel Lys, Llys y Goron, y llysoedd sirol a'r llysoedd ynadon, a bod gwasanaethau priodol yn cael eu darparu ar gyfer y llysoedd hyn. Crëwyd GLlEM gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i fod yn gyfrifol am reoli'r system a'r gwasanaethau llys yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r asiantaeth yn darparu cefnogaeth i'r farnwriaeth, yr ynadaeth a defnyddwyr y llys i sicrhau bod y llysoedd yn gweithredu'n effeithlon ac yn ddiduedd. Fel a nododd yn ei ddatganiad i Dŷ'r Arglwyddi ar 26 Ionawr 2004, mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol wedi ymrwymo i gynnal annibyniaeth y farnwriaeth a sicrhau y'i cefnogir gan system effeithlon ac effeithiol ar gyfer gweinyddu'r llysoedd. Cyflogir dros 20,000 o staff gan GLlEM a gweithiant mewn partneriaeth agos â rhagor na 30,000 o aelodau proffesiynol a lleyg o'r farnwriaeth.

Fel un o ganghennau cyflenwi gwasanaethau allweddol yr AMC, mae gan GLlEM ran bwysig yn y gwaith o roi agenda'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer system gyfiawnder fodern ar waith. Mae'n ofynnol iddo weithio ar y cyd gydag asiantaethau eraill y System Cyfiawnder Troseddol i sicrhau ei fod yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Prif Weithredwr yn gosod fframwaith perfformiad a strategaeth heriol sy'n cefnogi Strategaeth 5 mlynedd, amcanion a Chytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus(CGC) yr AMC. Fe'i cefnogir gan fwrdd rheoli sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol.

Mae'r Pencadlys yn Llundain, ac mae'r llysoedd a weinyddir gan yr asiantaeth wedi'u lleoli mewn 42 ardal gyda Chyfarwyddwr Ardal yn ben ar bob un, sy'n gyfrifol, ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol, am y gwasanaethau a ddarperir yn eu hardal a sicrhau bod yr asiantaeth yn canolbwyntio ar ei chwsmeriaid a'i bod yn bodloni anghenion lleol. Mae'r Cyfarwyddwyr Ardal yn cyfrannu'n llawn at y Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a leolir ymhob ardal, gydag aelodau'r byrddau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr lleol o'r system gyfiawnder troseddol.

Mae'r 42 ardal o fewn saith rhanbarth, gyda Chyfarwyddwr Rhanbarthol yn ben ar bob un, a'r rheini'n rheoli'r Cyfarwyddwyr Ardal i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws y rhanbarth. Yn ogystal â sicrhau bod nodau ariannol a pherfformiad yn cael eu cyflawni, mae gan y Cyfarwyddwr Rhanbarthol rôl bwysig o ran cynnal cysylltiadau a gweithio mewn partneriaeth gyda'r farnwriaeth a gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod y gwaith gweinyddol a ddarperir yn effeithlon er mwyn galluogi'r farnwriaeth i ddarparu cyfiawnder.

## Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi: Y 7 Rhanbarth a'r 42 Ardal



# Pwrpas, Gweledigaeth ac Amcanion

Cyfrifoldeb yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol yw cymeradwyo Pwrpas, Gweledigaeth ac Amcanion GLIEM o fewn pwrpas, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau strategol ehangach yr Adran a'i Chytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus.

## Pwrpas

Pwrpas GLIEM yw rheoli gweinyddiaeth y llysoedd yng Nghymru a Lloegr o fewn system gyfiawnder sydd wedi'i gwella a'i diwygio sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd.

## Gweledigaeth

Y weledigaeth ar gyfer GLIEM yw sefydliad sy'n cefnogi gwaith ynadon a barnwyr annibynnol trwy wasanaeth lleol awdurdodedig, sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau ac anghenion lleol o fewn fframwaith cenedlaethol, gydag arweinyddiaeth gref ar lefel leol a chenedlaethol. Drwy hyn, bydd gweinyddiaeth y llysoedd yn darparu perfformiad rhagorol i ddefnyddwyr amrywiol y gwasanaeth.

## Amcanion

Yr amcan ar gyfer GLIEM yw bod yn sefydliad sy'n darparu perfformiad rhagorol drwy'r canlynol:

- cael partneriaeth adeiladol gyda'r farnwriaeth annibynnol;
- gweithio gyda'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ac eraill i wella effeithlonrwydd y system gyfiawnder;
- cynnwys, gwrando ac ymateb i'r cyhoedd;
- arwain gyda gwneud diwygiadau er mwyn gwella'n gwasanaeth;
- cynllunio ar gyfer gweinyddiaeth ddibynadwy o'r radd flaenaf a darparu hynny;
- bod yn gyflogwr da;
- cynnal a gwella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd; a
- bod yn lleol ac atebol.

# Gwasanaethu Defnyddiwr y Llys

1

Mae GLIEM wedi ymrwymo i'r egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus canlynol:

- safonau uchel gyda golwg ar ddarparu gwasanaethau ac atebolrwydd lleol;
- datganoli a dirprwyo;
- hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr y llysoedd; ac
- ehangu'r dewis wrth ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr y llysoedd.

I gefnogi'r egwyddorion hyn, mae GLIEM wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i bob defnyddiwr. Mae gwasanaethau sydd ar gael yn hwylus ac a werthfawrogir gan eu defnyddwyr yn hanfodol i system gyfiawnder fodern. Yn unol ag egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus, cymerir penderfyniadau rheoli yn lleol o fewn fframwaith cadarn o safonau cenedlaethol a chyfeiriad strategol.

Mae GLIEM yn gwerthfawrogi barn pawb sy'n defnyddio'i wasanaethau a bydd yn gweithio gyda holl ddefnyddwyr y llysoedd mewn modd agored ac ymgynghorol, ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd yr asiantaeth yn trafod lefelau gwasanaeth gyda'r 42 Bwrdd Llysoedd lleol. Bydd yn cynnal arolygon rheolaidd fel rhan o'i system monitro perfformiad. Bydd yn defnyddio canlyniadau'r cyfryw arolygon a thrafodaethau i osod safonau ac ymestyn a gwella rhagor ar y gwasanaeth y mae'n ei gynnig i ddiwallu anghenion ei ddefnyddwyr. Mae GLIEM yn monitro pob sylw a chŵyn a dderbynia ac anela at ymateb yn adeiladol yn unol â threfn gwyno gyhoeddedig.

Gosodir targedau ar gyfer cyflawni lefelau penodol o berfformiad a gwasanaeth ymhob un o feysydd gwaith yr asiantaeth. Cyhoeddir targedau allweddol yng nghynlluniau'r asiantaeth ac adroddir arnynt yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae GLIEM yn ymrwymedig i sicrhau'r Nod Siarter ac i weithio gyda'r ACM i gadw'r achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl.

Mae Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM, sy'n gyfrifol am arolygu gweinyddiaeth Llys y Goron, y llysoedd ynadon a'r llysoedd sirol, yn ogystal â CAFCASS a swyddogaethau achosion teulu yng Nghymru yn ategu ac yn cefnogi'r ymgyrch hon i wella perfformiad.

## Byrddau Llysoedd

Mae Adran 4 Deddf Llysoedd 2003 yn sefydlu 42 Bwrdd Llysoedd ar draws Cymru a Lloegr, un ar gyfer pob un o ardaloedd rheoli GLIEM. Dan Atodlen 1 o'r Ddeddf, rhaid i aelodaeth pob Bwrdd Llysoedd gynnwys y canlynol o leiaf: un barnwr; dau ynad lleyg a neilltuwyd i'r ardal; dau berson sydd ym marn yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol yn meddu ar wybodaeth neu brofiad priodol o waith y llysoedd yn yr ardal; dau berson sydd ym marn yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynrychioli'r bobl sy'n byw yn yr ardal.

Mae Byrddau Llysoedd yn gwneud cyfraniad anweithredol i ddatblygiad strategaeth yr ardal o fewn y polisi a'r fframwaith perfformiad cenedlaethol. Mae Adran 5 y Ddeddf Llysoedd yn amlinellu swyddogaethau'r Byrddau Llysoedd.

Os yw'r Cyfarwyddwr Rhanbarth yn gwrthod un o argymhellion y Bwrdd Llysoedd ac oni ellir cael consensws ar y mater dan sylw, nodir y broses ganlyniadol yn y Canllawiau i'r Byrddau Llysoedd (ar gael ar wefan yr AMC).

## Perthynas gyda Sefydliadau Eraill

Er mwyn sicrhau gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid, bydd GLIEM yn gweithio'n gydweithredol ac yn ymgynghorol gyda chyrff eraill sydd â diddordeb yn ei waith megis Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Awdurdodau Lleol, cyrff proffesiynol, mudiadau'r sector gwirfoddol ac adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth yn y system gyfiawnder ehangach neu sydd â diddordeb yng ngwaith yr Asiantaeth.

## Y System Cyfiawnder Troseddol

Mae gan GLIEM rôl allweddol i'w chwarae yn y system cyfiawnder troseddol (CJS) sy'n gynghrair rhwng tair adran annibynnol: yr AMC, gyda'i chyfrifoldeb dros GLIEM; y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am y gyfraith hawliau, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai; a Gwasanaeth Erlyn y Goron, fel y prif awdurdod erlyn.

Mae pob adran yn gweithio'n annibynnol mewn perthynas â'u busnes craidd, gyda phob Gweinidog yn atebol i'r Senedd am eu meysydd cyfrifoldeb personol. Mae'r tair adran hefyd yn cydweithio er mwyn cyflwyno'r agenda ar gyfer diwygio cyfiawnder troseddol, trwy'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol (y mae Prif Weithredwr GLIEM yn aelod ohono) a thrwy'r 42 bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (y mae'r 42 Cyfarwyddwr Ardal yn aelodau ohonynt). Ceir targedau ar draws y system cyfiawnder troseddol ar ffurf CGCau, y mae pob adran yn y System Cyfiawnder Troseddol yn cytuno iddynt. Mae'r targedau sy'n effeithio'n benodol ar yr AMC a GLIEM yn gysylltiedig â gostwng nifer y treialon aneffeithiol yn Llysoedd y Goron a'r Llysoedd Ynadon a gwella lefel yr hyder yn y system cyfiawnder troseddol. Mae gwaith yr asiantaeth sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol, felly, yn cael ei fesur yn erbyn yr amcanion a'r targedau cysylltiedig y cytunir arnynt ar gyfer y system yn ei chyfanrwydd. Cyhoeddir y rhain yng Nghynllun Strategol y System Cyfiawnder Troseddol, Strategaeth 5 mlynedd yr AMC ac fe'u hadlewyrchir yng nghynlluniau busnes GLIEM a rhoddir adroddiad arnynt yn Adroddiad Blynyddol GLIEM.

## Cyfiawnder Sifil a Theulu

Mae gan GLIEM hefyd rôl allweddol yn y systemau cyfiawnder sifil a theulu. Mae GLIEM yn gweithio'n agos gyda'r cyrff hynny sy'n gysylltiedig â'r systemau cyfiawnder sifil a theulu, gan gynnwys adrannau eraill, sydd â chyfrifoldeb dros agweddau ar gyfraith hawliau teulu a sifil, er mwyn sicrhau y ceir gwasanaeth cydlynol.

# Y Berthynas gyda'r Farnwriaeth

2

Ar 26 Ionawr 2004, gwnaeth yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol ddatganiad yn y Senedd yn nodi'r cytundeb y daethpwyd iddo rhwng yr Arglwydd Brif Ustus ac yntau, yn dwyn y teitl Concordat. Dan y Concordat, ymrwymodd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i amddiffyn a chynnal annibyniaeth barhaus y farnwriaeth a'i ymrwymiad i system lysoedd effeithiol ac effeithlon sy'n cefnogi'r farnwriaeth a'i galluogi i gyflawni'i swyddogaethau.

Mae GLIEM yn anelu at feithrin cysylltiadau da gyda phob aelod o'r farnwriaeth. Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod holl weithgareddau'r asiantaeth yn cydymffurfio â'r Concordat rhwng yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol a'r Arglwydd Brif Ustus. Mae GLIEM yn gweithio'n agos gyda'r Arglwydd Brif Ustus a'r Penaethiaid Adran eraill, yr Uwch Farnwr Llywyddol, Barnwyr Llywyddol, cynrychiolwyr y Meinciau Cylchdaith a Dosbarth, Cadeiryddion Meinciau a swyddogion barnwrol ac ynadol eraill, fel sy'n briodol, er mwyn sicrhau y galluogir pob parti i ymgymryd â'u cyfrifoldebau o ran rheoli'r llysoedd a gweinyddu cyfiawnder.

Mae'r Uwch Farnwr Llywyddol yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd Corfforaethol GLIEM. Yn ychwanegol, mae peirianweithiau'n bodoli i alluogi'r Prif Weithredwr a phob aelod o staff i ymgynghori â'r farnwriaeth, yn y meysydd canlynol yn neilltuol:

## Rheoli Adnoddau

Wrth bennu blaenoriaethau ar draws GLIEM, mae'r Prif Weithredwr yn dyrannu'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol ac yn sicrhau bod dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 1 o'r Ddeddf Llysoedd yn cael ei chyflawni. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal o leiaf dwy drafodaeth ddwyochrog yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr Cyngor y Barnwyr gan ganolbwyntio ar roi cyfle iddynt roi eu mewnbwn i'r gwaith o gynllunio adnoddau'r asiantaeth ar gyfer y dyfodol. Trafodir y cynlluniau busnes blynyddol a'r cynlluniau strategol gyda'r Barnwyr cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i'w cymeradwyo, fel gyda'r cynlluniau ar gyfer delio gydag unrhyw newidiadau mawr yn ystod y flwyddyn yn y dyraniad adnoddau a allai effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr asiantaeth.

## Cau Llys Ynadon

Er mwyn cau llys ynadon yn barhaol rhaid cael cymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 30(1) Deddf Llysoedd 2003. Rhaid i'r Prif Weithredwr ymgynghori ag aelodau priodol y farnwriaeth cyn cyflwyno cynigion o'r fath i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Cau Llys Sirol

Er mwyn cau llys sirol yn barhaol rhaid cael cymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 2(1) Deddf Llysoedd Sirol 1984. Rhaid i'r Prif Weithredwr ymgynghori ag aelodau priodol y farnwriaeth cyn cyflwyno cynigion o'r fath i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Cau Canolfan Llys y Goron

Er mwyn cau canolfan Llys y Goron yn barhaol rhaid cael cymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 78(3) Deddf y Goruchel Lys 1981. Eto, rhaid i'r Prif Weithredwr ymgynghori ag aelodau priodol y farnwriaeth cyn cyflwyno cynigion o'r fath i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Y Rhanbarthau, Ardaloedd Rheoli Lleol, Ardaloedd Byrddau Llysoedd ac Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

Mae'r Prif Weithredwr yn ymgynghori â'r aelodau priodol o'r farnwriaeth ynglŷn ag unrhyw gynlluniau i newid nifer y ffiniau neu ffin unrhyw ranbarth, ardal reoli leol, ardal Bwrdd Llysoedd neu ardal gyfiawnder leol cyn cyflwyno cynigion o'r fath i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mewn unrhyw un o'r amgylchiadau uchod, lle mae angen cael cymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gweithredu, bydd cyflwyniad y Prif Weithredwr yn cynnwys safbwyntiau aelodau priodol y farnwriaeth.

## Hyfforddi Barnwyr ac Ynadon

Yr Arglwydd Brif Ustus fydd yn gyfrifol am ddarparu a chyllido hyfforddiant barnwrol o fewn yr adnoddau a ddarperir gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol. Y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol sy'n darparu addysg a hyfforddiant y farnwriaeth. Uwch aelod o'r farnwriaeth sy'n cadeirio'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol.

Bydd y Bwrdd hwn yn ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Uwch Farnwr Llywyddol yn flynyddol ynglŷn â'i gynlluniau hyfforddi ar gyfer y farnwriaeth broffesiynol a'u goblygiadau mewn perthynas â rhyddhau barnwyr.

GLIEM sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynllunio, rheoli a darparu'r hyfforddiant sylfaenol gofynnol ar gyfer ynadon.

Bydd y rolau a'r cyfrifoldebau yn cael eu pennu eto mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng GLIEM a'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol.

# Atebolrwyddau

3

## Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol

Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol yn atebol i'r Senedd am Wasanaeth Llysoedd EM ac mae ganddo ddyletswydd i sicrhau bod system effeithiol ac effeithlon ar gael i gefnogi busnes llysoedd Cymru a Lloegr, fel a nodir yn Rhan 1 Deddf Llysoedd 2003. Mae'n penodi Prif Weithredwr i reoli'r asiantaeth ac mae'n dirprwyo i'r Prif Weithredwr, trwy'r Ysgrifennydd Parhaol, gyfrifoldeb dros ymarfer ei swyddogaethau.

Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol yn dyrannu adnoddau i GLIEM ac yn cymeradwyo Pwrpas, Gweledigaeth ac Amcanion yr asiantaeth, yn ogystal â'i chynllun corfforaethol a'i chynllun busnes blynyddol, ac yn gosod y targedau perfformiad blynyddol y mae'r asiantaeth i'w cyflawni. Darperir adroddiad rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y cynlluniau a'r targedau hynny i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol. Ni fydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol fel arfer yn ymyrryd yn y gwaith o reoli'r asiantaeth o ddydd i ddydd, ond bydd yn disgwyl i'r Prif Weithredwr ymgynghori ag ef mewn perthynas â delio gyda materion gweithredol, a allai arwain at bryderon cyhoeddus, barnwrol neu Seneddol sylweddol. Cynhelir o leiaf un cyfarfod ffurfiol y flwyddyn rhwng Gweinidogion a GLIEM i drafod perfformiad a chynlluniau'r asiantaeth. Bydd gan y Prif Weithredwr hawl mynediad i'r Gweinidog cyfrifol pan fo angen.

## Yr Ysgrifennydd Parhaol

Yr Ysgrifennydd Parhaol, fel pennaeth parhaol yr AMC, yw prif gynghorydd yr Adran ar gyfer Gweinidogion ar faterion sy'n effeithio ar yr Adran yn gyfan, gan gynnwys gwariant a dyrannu adnoddau.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am gynghori'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddyrannu adnoddau adrannol, ar Ddogfen Fframwaith GLIEM ac, ar ôl ymgynghori gyda'r Prif Weithredwr, yn gyfrifol am osod targedau perfformiad ariannol ac anariannol priodol ar gyfer GLIEM.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am gefnogi Prif Weithredwr GLIEM er mwyn iddo allu sicrhau bod cyfeiriad strategol a rheolaeth strategol GLIEM yn gweithredu yng nghyd-destun amcanion adrannol neu draws-lywodraethol ehangach. Yn neilltuol, mae'n gyfrifol am sicrhau bod Pwrpas, Gweledigaeth ac Amcanion yr asiantaeth yn cefnogi'r CGC ac amcan strategol ehangach yr Adran.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am gytuno ar y fframwaith rheoli perfformiad strategol ar gyfer GLIEM.

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r AMC ac mae'n gyfrifol am sicrhau rheolaeth ariannol o safon uchel ar yr Adran yn gyffredinol, ac yn neilltuol, bydd rhaid iddo gael ei fodloni fod gan GLIEM systemau a gweithdrefnau ariannol digonol ar waith er mwyn sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn effeithlon a darbodus a hefyd er mwyn diogelu rheoleidd-dra a phriodoldeb ariannol.

## Y Prif Weithredwr

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol ac yn atebol i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol trwy'r Ysgrifennydd Parhaol am reoli'r asiantaeth o ddydd i ddydd mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon. Yn arbennig, bydd y Prif Weithredwr yn:

- cynghori ar oblygiadau gwybodaeth perfformiad strategol;
- cynghori ar yr arian a'r adnoddau y bydd GLIEM eu hangen i gyflawni'u canlyniadau cytunedig;
- cefnogi GLIEM i sicrhau bod yr asiantaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno amcanion a CGCau yr AMC yn effeithiol;
- sicrhau bod gan GLIEM yr awdurdodau a'r dirprwyaethau gofynnol ar gyfer gallu cyflwyno gwasanaethau'n effeithiol ac ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus;
- sefydlu strategaeth fusnes a pholisïau cenedlaethol yr asiantaeth;
- gosod a monitro fframwaith perfformiad heriol;
- aelod o Fwrdd Corfforaethol yr AMC;
- sefydlu fframwaith ar gyfer dyrannu adnoddau i ardaloedd lleol ac wedyn dyrannu adnoddau o fewn fframwaith gwario cyffredinol yr asiantaeth;
- sicrhau bod partneriaethau cadarn yn cael eu sefydlu gyda'r farnwriaeth a'r ynadaeth ar bob lefel a bod yr asiantaeth yn parchu'u hannibyniaeth farnwrol;
- sicrhau bod cysylltiadau priodol yn cael eu sefydlu gyda'r Byrddau Llysoedd i gael eu barn;
- sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra o du'r asiantaeth wrth ddelio gydag arian cyhoeddus;
- sefydlu arferion llywodraethu corfforaethol a rheoli risg cadarn;
- sicrhau bod cyfrifon archwiliedig yn cael eu paratoi ac wedyn eu llofnodi;
- sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a gweithredu trefn gwyno effeithiol; a
- sicrhau bod argymhellion y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cyfansoddiadol, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau seneddol eraill a dderbynnir gan y Llywodraeth a'u hysbysu i'r Prif Weithredwr yn cael eu rhoi ar waith a chan ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r Ysgrifennydd Parhaol ar y cynnydd a wneir o ran cydymffurfio â'r argymhellion hynny.

Dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn rhinwedd ei swydd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau y glynir wrth y gweithdrefnau priodol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb gwariant GLIEM. Rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau bod yr arian y mae'n gyfrifol amdano yn cael ei reoli'n briodol ac y glynir wrth ofynion cyfrifyddu'r llywodraeth ac unrhyw ganllawiau cyffredinol a gyhoeddir gan y Trysorlys, Swyddfa'r Cabinet a'r AMC.

# Atebolrwydd i'r Senedd

4

## Pwyllgorau Seneddol

Gellir cyfarwyddo'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Parhaol i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â'u cyfrifoldebau fel Swyddogion Cyfrifyddu.
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu pwy ddylai ymddangos gerbron gwrandawiadau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cyfansoddiadol. Os yw'r gwrandawiad yn ymwneud â gweithrediad GLIEM o ddydd i ddydd, mae'r Ysgrifennydd Parhaol fel arfer yn gwahodd y Prif Weithredwr i fynychu.

## Y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth

Bydd gwaith gweinyddol GLIEM yn rhwym wrth awdurdodaeth y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth. Dan Adran 110 (2) Deddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfraith 1990, fodd bynnag, nid yw gwaith a wneir gan GLIEM ar gyfarwyddyd neu ar awdurdod (wedi'i fynegi neu ymhlyg) barnwr neu berson sy'n gweithredu mewn swyddogaeth farnwrol yn dod o dan awdurdodaeth y Comisiynydd Seneddol. Yr Ysgrifennydd Parhaol yw Prif Swyddog yr Adran i bwrpas atgyfeiriadau i'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth, ond bydd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros adrodd ar faterion sy'n ymwneud â GLIEM, a'u hateb, i'r Prif Weithredwr.

## Cwestiynau Seneddol a Gohebiaeth Seneddol

Bydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol, neu'r gweinidog ieuaf perthnasol, yn ymateb yn bersonol fel arfer i gwestiynau seneddol a gyfeirir atynt gan Aelod Seneddol (AS) neu Arglwydd.

Mae'r un peth yn wir ar gyfer gohebiaeth seneddol oddi wrth ASau neu Arglwyddi. Fel arfer, anogir Aelodau Seneddol ac Arglwyddi i ysgrifennu at y Prif Weithredwr yn hytrach nag at yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â materion sy'n ymwneud â gweithrediad GLIEM o ddydd i ddydd. Fel arfer bydd yr Arglwydd Ganghellor yn gofyn i'r Prif Weithredwr ateb pob gohebiaeth ar faterion o'r fath oddi wrth Aelodau Seneddol neu Arglwyddi.

Os yw'r ohebiaeth yn ymwneud yn benodol â chŵyn am ymddygiad deilydd swydd farnwrol, bydd yr Arglwydd Ganghellor fel arfer yn ymateb yn bersonol, fel y Gweinidog sy'n atebol i'r Senedd am y system ddisgyblu farnwrol. Os yw ateb yr Arglwydd Ganghellor i'r gyfryw ohebiaeth yn cynnwys gwybodaeth am gamau disgyblu i'w cymryd yn erbyn deilydd y swydd, neu am yr ymchwiliad i gŵyn, bydd yr Arglwydd Brif Ustus yn dilysu'r ateb, a fydd yn gyfrifol ar y cyd am y system ddisgyblu ac yn gyfrifol yn neilltuol am osod unrhyw sancsiynau disgyblu, ar wahân i dynnu o swydd, gyda chytundeb yr Arglwydd Ganghellor. Mae cymalau 94 i 99 y Mesur Diwygio Cyfansoddiadol (21 Rhagfyr 2004 argraffiad cyflwyniadol Tŷ'r Cyffredin) yn nodi cyfrifoldebau'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn y maes hwn, ac fe ategir y rhain gan reolau a rheoliadau manwl a fydd yn cael eu llunio gan yr Arglwydd Brif Ustus, gyda chytundeb yr Arglwydd Ganghellor, dan gymalau 96 a 98.

# Trefn Ariannol

5

## Darpariaeth a Dirprwyaethau Ariannol

Ceir y trefniadau dirprwyo ariannol manwl ar gyfer y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth yn Atodiad 1.

Cyllidir GLIEM fel rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (TGA) cyffredinol yr AMC a bleidleisir gan y Senedd. Gellir adolygu'r dirprwyaethau ariannol i Wasanaeth Llysoedd EM yng nghyd-destun ei gynlluniau busnes a strategol. Bydd y Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Weithredwr yn negodi ar y cyd gyda Thrysorlys EM mewn perthynas ag unrhyw ddirprwyaethau newydd neu newidiadau i ddirprwyaethau cyfredol.

Mae pob agwedd ar gynllunio, cyllid a rheolaeth o fewn GLIEM yn digwydd yn unol â chylch adolygu gwariant y Llywodraeth ac o fewn unrhyw amserlen bellach y cytunir arni gyda'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r asiantaeth yn rhan o'r AMC ac, o'r herwydd, bydd ei chynlluniau yn cefnogi nodau ac amcanion yr Adran a'r Llywodraeth.

Yn amodol ar weithdrefnau cyflenwi safonol y llywodraeth, mae gan y Prif Weithredwr awdurdod i gymeradwyo pob gwariant o fewn y TGA sy'n gyson â'r cynlluniau busnes a strategol.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol am y gwariant ar weithrediad GLIEM wrth iddo ddarparu'i wasanaethau. Rhaid i'r Prif Weithredwr fod yn fodlon fod gan y gwariant ar wasanaethau y mae'r AMC yn eu darparu i GLIEM (ac nad ydynt felly o fewn yr asiantaeth) systemau rheoli effeithiol gan gynnwys systemau rheoli a monitro ariannol.

Bydd y cyfrifoldeb dros wariant ar y lefel ddirprwyedig berthnasol yng Ngwasanaeth Llysoedd EM, yn gyson â gofynion rheolaeth a phriodoldeb ariannol.

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod GLIEM yn gallu rhoi cyfrif am ei asedau.

Bydd y Prif Weithredwr yn dilyn yr arweiniad ar drin colledion a thaliadau arbennig a nodir yn Government Accounting a Llawlyfr Cyllid yr AMC. Mae gan y Prif Weithredwr derfynau dirprwyedig ar gyfer awdurdodi colledion i'w dileu a gwneud taliadau arbennig na fydd yn mynd y tu hwnt iddynt ar unrhyw un achlysur. Dylid cyfeirio unrhyw hawliadau y mae eu gwerth y tu hwnt i'r terfynau hyn at Bencadlys yr AMC.

## Ffioedd

Gosodir ffioedd yn unol ag adran 92 Deddf Llysoedd 2003, gyda chydsyniad y Trysorlys.

## Awdurdodau Dirprwyedig

Mae gan y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, hawl i gymeradwyo bob eitem o wariant, defnyddio derbynebau, gosod contractau, dileu colledion a gwneud taliadau arbennig sydd o fewn darpariaethau'r ddogfen hon ac sy'n gyson â'r cynlluniau busnes a strategol.

## Dirprwyaethau Mewnol

Bydd y Prif Weithredwr yn dirprwyo i gyfarwyddwyr gweithredol Bwrdd Corfforaethol GLIEM a rheolwyr llinell eraill yr awdurdod i brynu nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys staff, talu anfonebau a defnyddio derbynebau, yn ôl yr hyn a ystyrir yn briodol, gan roi ystyriaeth i'r angen am reolaeth a phriodoldeb ariannol. Dyrennir yr arian fel cyllidebau ffurfiol i benaethiaid yr unedau dan sylw, a fydd yn gyfrifol yn bersonol am sicrhau bod eu gwariant yn gyson â pholisïau GLIEM a chwmpas pleidlais yr AMC. Bydd yr awdurdodau dirprwyedig wedi'u diffinio'n glir mewn llawlyfr cyllid neu gyfarwyddiadau cyfatebol, a byddant yn gyson â rheolau Government Accounting a'r polisïau cyfrifyddu mewnol a bennir gan y Prif Weithredwr.

## Rheolau Cyfrifyddu Cyffredinol

Mae GLIEM yn ddarostyngedig i'r rheolau a'r polisïau a osodir gan Drysorlys EM yn Government Accounting a chyfarwyddiadau cyfrifyddu eraill a gyhoeddir o bryd i'w gilydd.

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am lunio a llofnodi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol wedi'u harchwilio ar berfformiad GLIEM yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol; sy'n cynnwys:

- adolygiad o weithgareddau'r asiantaeth yn ystod y flwyddyn;
- perfformiad yn erbyn targedau allweddol ac yn erbyn y Cynllun Busnes blynyddol;
- sefyllfa ariannol yr asiantaeth;
- Datganiad ar Reolaeth Fewnol yr asiantaeth; ac
- unrhyw wybodaeth ychwanegol y gall yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ei nodi o bryd i'w gilydd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys set o gyfrifon ariannol blynyddol ar sail croniadau. Llunnir y cyfrifon yn unol â chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Trysorlys dan adran 7 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ac fe'u harchwilir gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol gerbron y Senedd.

Mae gwybodaeth am berfformiad yn erbyn y targedau perfformiad allweddol yn cael ei chynnwys yn y nodiadau i'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth hon yn dod o fewn cwmpas archwiliad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Y nod fydd cyhoeddi Adroddiad Blynyddol GLIEM cyn gwyliau'r haf yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi.

## Cynllunio, Rheoli Perfformiad a Monitro

Mae pob agwedd ar gynllunio, cyllid a rheolaeth o fewn GLIEM yn digwydd yn unol â chylch gwariant cyhoeddus y Llywodraeth ac fe'u datblygir fel rhan o Gytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus yr AMC. Ceir agwedd gydlynol hefyd at gynllunio gydag asiantaethau ac adrannau eraill y mae eu gweithgareddau yn cael effaith ar y system llysoedd, yn arbennig yng nghyswllt y trefniadau cynllunio tairochrog ar gyfer y system cyfiawnder troseddol.

Mae Bwrdd Corfforaethol GLIEM yn darparu goruchwyliaeth strategol, arweiniad, craffu ar ac yn her i waith GLIEM wrth gefnogi'r Prif Weithredwr yn ogystal â swyddogaeth graffu. Wrth ymarfer y swyddogaethau hyn, mae amcanion y Bwrdd fel a ganlyn:

- mabwysiadu cyllidebau a chynlluniau busnes blynyddol ac adolygu perfformiad yn erbyn y cynlluniau hyn;

- adolygu perfformiad yn erbyn targedau'r CGC a thargedau cysylltiedig eraill;
- cytuno ar gynlluniau, targedau a blaenoriaethau'r adolygiad o wariant fel ag y maent yn effeithio ar GLIEM;
- adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau i ddefnyddwyr y llysoedd;
- cymeradwyo a rheoli prosiectau a rhaglenni sylweddol;
- sicrhau bod polisi'r Llywodraeth yn cael ei weithredu'n effeithiol ar draws GLIEM a bod y Gwasanaeth wedi cael rhoi mewnbwn priodol i ddatblygiad y polisi hwnnw; a
- sicrhau bod GLIEM yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol.

Penderfynir ar amseriad a chwmpas unrhyw adolygiadau a wneir o'r asiantaeth yng nghyswllt y broses Adolygiad o Wariant a chylch cynllunio busnes yr AMC. Bydd cynlluniau busnes a strategol GLIEM yn rhoi ystyriaeth i argymhellion unrhyw adolygiadau a gynhelir gan yr AMC neu adolygiadau ehangach o fewn y system gyfiawnder wrth iddynt effeithio ar yr asiantaeth.

## Dangosyddion Perfformiad

Bwriada'r asiantaeth gyflawni'r targedau hynny a gynhwysir yng Nghytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus yr AMC sy'n effeithio arni. Os yw'n briodol, bydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gosod Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) eraill a'u targedau blynyddol ar gyfer GLIEM.

## Cynllun strategol

Yn unol â'r amserlen ar gyfer adolygiadau o wariant cyhoeddus, mae GLIEM yn paratoi cynllun strategol ar gyfer yr asiantaeth sy'n nodi'i strategaeth ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf. Fe'i cyflwynir i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo trwy'r Ysgrifennydd Parhaol.

Bydd y cynllun strategol yn cynnwys:

- pwrpas, gweledigaeth, amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer GLIEM;
- y strategaethau y bydd yn eu defnyddio i gyflawni'r amcanion strategol hynny;
- tybiaethau gweithredol sy'n ymwneud â llwyth gwaith y llysoedd, adeiladau a niferoedd y farnwriaeth a'r ynadon sydd ar gael;
- yr adnoddau y disgwylir iddynt fod ar gael; a
- chynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gwasanaeth ac effeithlonrwydd.

## Cynllun Busnes

Mae GLIEM yn llunio cynllun busnes bob blwyddyn sy'n nodi gweithgareddau manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Cyflwynir y cynllun i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo.

Bydd y cynllun busnes yn cynnwys:

- y blaenoriaethau a'r rhaglen waith am y flwyddyn;
- tybiaethau allweddol am y llwyth gwaith a'r adnoddau sydd ar gael;
- y targedau i'w cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol GLIEM; a
- dangosyddion ategol GLIEM a'u targedau.

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno'r cynllun busnes i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ar ffurf drafft i'w gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

Cyhoeddir y cynllun busnes yn flynyddol a'r cynllun strategol ar ôl pob cylch adolygu gwariant. Y nod fydd cyhoeddi'r rhain cyn y flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi.

Os bydd newidiadau o bwys nad oedd modd eu rhagweld i dybiaethau gweithredol GLIEM, efallai y bydd rhaid adolygu'r cynlluniau yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i'w cymeradwyo.

## Adrodd ar Berfformiad

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae hefyd yn sicrhau bod Bwrdd GLIEM a Bwrdd Corfforaethol yr AMC yn derbyn adroddiadau yn ôl yr hyn a gytunwyd arno, ar:

- berfformiad yn erbyn targedau allweddol a safonau gwasanaeth;
- gwariant yn erbyn y ddarpariaeth;
- lefelau staffio; ac
- unrhyw faterion eraill y bydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol am eu cael yn benodol.

## Rheoli Risg

Rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau bod asesiad rheoli risg ffurfiol wedi cael ei wreiddio yn y busnes i gefnogi ei Ddatganiad blynyddol o Reolaeth Fewnol. Mae egwyddorion y fframwaith yn dilyn strategaeth yr AMC ar gyfer rheoli risg.

# Archwilio ac Arolygu

6

## Archwilio Mewnol

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol o fewn GLlEM. Gellir defnyddio Gwasanaeth Sicrwydd Mewnol yr AMC neu archwilwyr eraill gyhyd ag y darperir y gwasanaeth yn unol â'r safonau a'r arfer gorau a bennir gan Drysorlys EM, ac yn arbennig, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae gan Wasanaeth Sicrwydd Mewnol yr AMC hawl mynediad i GLlEM i gefnogi cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

## Y Pwyllgor Archwilio

Penodir y Pwyllgor Archwilio i gefnogi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth wrth iddo fonitro systemau llywodraethu corfforaethol, risg a rheoli'r asiantaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cynghori Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth ynglŷn â'r canlynol:

- prosesau strategol ar gyfer rheolaeth, llywodraethu a rheoli risg;
- polisïau cyfrifyddu a chyfrifon y sefydliad;
- gweithgarwch a gynllunnir a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol;
- digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a glustnodwyd trwy'r gweithgarwch archwilio;
- sicrwydd sy'n ymwneud â'r gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y sefydliad;
- (lle bo'n briodol) cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- y gwasanaethau a ddarperir i'r asiantaeth, yn ogystal ag effaith unrhyw raglenni neu brosiectau yr ymgymerir â hwy naill ar y cyd neu y tu allan i'r asiantaeth (h.y. gan yr AMC neu unrhyw sefydliad arall) ar weithrediad yr asiantaeth; a
- canlyniad ymchwiliadau ar unrhyw fater a ddygwyd i'w sylw, o fewn cwmpas ei ddyletswyddau.

Bydd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio GLlEM yn cynnal trefniadau cyfathrebu effeithiol gyda Phwyllgor Archwilio Corfforaethol yr AMC ar drefniadau llywodraethu, rheolaeth a rheoli risg. Bydd hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion pwyllgor archwilio'r Adran i drafod materion o gyd-ddiddordeb a darparu cofnodion Pwyllgor Archwilio GLlEM i'r Pwyllgor Archwilio Corfforaethol.

## Archwilio Allanol

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilio gwariant ac incwm yr asiantaeth, yn edrych ar eu rheoleidd-dra a'u priodoldeb ac yn adrodd ar Ddatganiad Cyfrifon yr asiantaeth a'i ardystio. Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn anfon copi o bob llythyr rheolaeth a gohebiaeth sy'n ymwneud â'r llythyrau hynny at Gyfarwyddwr Cyllid yr Adran. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i fersiynau drafft o lythyrau rheolaeth.

Mae gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fynediad i lyfrau a chofnodion yr asiantaeth yn sgil Deddf Archwilio Cenedlaethol 1983 at ddibenion cynnal archwiliadau o ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y bu'r asiantaeth wrth ddefnyddio'i hadnoddau ac ymgymryd â'i swyddogaethau.

## Arolygiad

Dan Adran 58-61 Deddf Llysoedd 2003, mae Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM yn arolygu ac yn adrodd i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ar y gwasanaethau a ddarperir i'r llysoedd ynadon, Llys y Goron a'r llysoedd sirol. Mae'r Prif Arolygwr yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch gweithrediad gweinyddiaeth y llysoedd fel rhan o'r gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer sicrhau a rheoli perfformiad GLIEM. Cynhelir arolygon gan ddilyn canllawiau Swyddfa Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus ar arolygu ac yn unol â chyfrifoldebau'r Arolygiaeth y cytunwyd arnynt gyda Gweinidogion.

# Gwasanaethau Cefnogi

7

Hwylusir gweithrediad yr asiantaeth gan nifer o wasanaethau cefnogi, megis Adrannau AD, Cyllid, TG, Caffael, Ystadau ac Archwilio Mewnol yr AMC, a ddarperir ar lefel leol a rhanbarthol o fewn fframwaith cenedlaethol. Bydd caffael gwasanaethau proffesiynol yn rhwym wrth ganllawiau'r AMC a llywodraeth ganol.

Mae rhai swyddogaethau cefnogi eraill i'w cael o fewn yr asiantaeth, a darperir eraill gan wasanaethau corfforaethol yr AMC. Gyda'r olaf, bydd gan yr asiantaeth Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda darparwr gwasanaeth corfforaethol yr AMC.

# Adnoddau Dynol

8

Bydd gan Brif Weithredwr GLIEM gyfrifoldeb dros:

- sefydlu'r strwythur sefydliadol a rheoli staff;
- sicrhau'r cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau AD GLIEM a dirprwyo awdurdod i AD yr AMC;
- gweithredu systemau a pholisïau AD yr AMC, gan gynnwys cyflogau a graddfeydd, datblygu a rheoli perfformiad;
- rhoi gwybod am faterion, datblygiadau a pholisïau AD i staff;
- rhoi adborth i AD yr AMC ar effaith polisïau a systemau AD yr ADC, a rhoi cyngor ar ddatblygiadau a allai effeithio arnynt; a
- pennu'r gofynion ar gyfer y swyddi sydd i'w llenwi a darparu adnoddau ar gamau allweddol yn y broses ddewis.

Bydd AD yr AMC yn datblygu'r strategaeth AD i gefnogi'r gwaith o gyflwyno amcanion yr Adran yn llwyddiannus trwy'i phobl. Bydd y strategaeth AD yn berthnasol i bob rhan o'r Adran a'i hasiantaethau gan gynnwys GLIEM. Bydd y strategaeth yn darparu cyfeiriad cyffredinol ar gyfer gweithgarwch AD ac yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau cefnogi ymhob rhan o'r Adran. Cefnogir gweithrediad y strategaeth gan systemau, polisïau a phrosesau AD yr Adran.

Bydd AD yr AMC yn datblygu trefniadau manwl ar gyfer Adnoddau Dynol mewn fframwaith polisi AD (a fydd yn cael ei adlewyrchu mewn llawlyfr gweithwyr a dogfennau cysylltiedig o eiddo'r AMC) a fydd yn berthnasol i bob rhan o'r Adran a'i hasiantaethau, gan gynnwys GLIEM. Bydd AD yr AMC hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth i'r asiantaeth ar bolisïau adrannol a deddfwriaeth cyflogaeth. Bydd AD yr AMC yn diweddaru'r polisïau adrannol hyn i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol.

Bydd y polisïau a fydd yn cael sylw yn fframwaith polisi AD yr AMC yn cynnwys:

- ymddygiad a threfniadau disgyblu a chwyno;
- amrywiaeth;
- rheoli gwobrwyo gan gynnwys cyflogau, graddio a buddion;
- cysylltiadau diwydiannol;
- dysgu a datblygu; a
- lles.

Cyflwynir gwasanaethau Adnoddau Dynol (AD) trwy fodel 'gwasanaethau a rennir' a ddarperir gan Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol (AD) yr AMC, gan weithio mewn partneriaeth â rheolwyr yn yr asiantaeth. Mae'r model hyn yn cynnwys:

- Canolfan gorfforaethol AD yr AMC, sy'n datblygu strategaeth AD; gosod a chynnal safonau corfforaethol; cefnogi cynlluniau corfforaethol a chynlluniau o dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet; ac sy'n darparu arweiniad mewn meysydd arbenigedd a rheoli asedau AD corfforaethol.
- Partneriaid busnes ardal a rhanbarthol sy'n gysylltiedig â'r busnes i sicrhau bod anghenion AD yn cael eu bodloni.
- Tîm arbennig yn AD yr AMC sy'n darparu gwasanaethau trafodion i'r asiantaeth megis rheoli

recriwtio a dewis a newidiadau i'r gyflogres.

- Tîm arbennig yn AD yr AMC sy'n darparu gwasanaethau arbenigol megis ymgynghorwyr lles, hyfforddwyr datblygu a thimau gwaith achos cysylltiadau gweithwyr.

Yn allweddol i'r model Gwasanaethau a Rennir fydd 'Partneriaid Busnes AD', swyddogion adnoddau dynol proffesiynol yn yr AMC a aseinir i ardal neu ranbarth neilltuol gan fod yn brif gyswllt rhwng AD yr AMC a GLIEM, ac sy'n gweithio i sicrhau bod anghenion busnes AD holl rannau'r asiantaeth yn cael eu bodloni yn ymarferol. Bydd partner busnes AD Rhanbarthol yn gysylltiedig â phob un o saith rhanbarth yr asiantaeth. Bydd y Partneriaid Busnes AD Rhanbarthol yn eistedd ar fyrddau gwneud-penderfyniadau-busnes y rhanbarth y maent wedi'u haseinio iddi. Byddant yn llunio cynlluniau pobl AD i gefnogi busnes y rhanbarth gan gynnwys cynllun Dysgu a Datblygu rhanbarthol; arwain gyda'r gwaith o gynllunio newid a'i roi ar waith a sicrhau adnoddau AD priodol i wasanaethu anghenion y rhanbarth. Mae partneriaid busnes AD Ardal yn cefnogi'r partneriaid busnes Rhanbarthol. Mae'r Partneriaid Busnes yn cydweithio gydag arbenigwyr AD sy'n gweithio gyda rheolwyr llinell yn yr asiantaeth lle mae angen cefnogaeth leol hirdymor, er enghraifft wrth adolygu anghenion hyfforddi a datblygu lle ceir nifer uchel o sefyllfaoedd sy'n ymwneud â'r drefn gwyno a disgyblu.

Bydd AD yr AMC yn datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi egwyddorion cyffredinol y berthynas rhwng AD a'r asiantaeth. Cydategir y Memorandwm hwn gan dargedau penodol yn y cynllun busnes adnoddau dynol adrannol, a fydd yn cael ei lunio'n flynyddol a'i lofnodi'n derfynol gan Fwrdd Corfforaethol yr AMC. Adolygir y Memorandwm bob tair blynedd (neu'n gynharach os yw'r blaenoriaethau AD yn newid, er y bydd angen i'r Cyfarwyddwr AD a'r Prif Weithredwr gytuno ar hyn). Bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn yr AMC a Phartner Busnes Arweiniol AD ar gyfer GLIEM yn cynnal cyfarfodydd adolygu chwarterol gyda Phrif Weithredwr GLIEM. Bydd y Partner Busnes AD Arweiniol yn aelod o Fwrdd Corfforaethol GLIEM, a fydd yn cyfarfod bob mis.

Bydd y Cyfarwyddwr yn mynychu cyfarfodydd o bwyllgor gweithredol Bwrdd Corfforaethol yr AMC yn rheolaidd y mae'n rhaid cael ei gytundeb ar gyfer prosiectau AD corfforaethol.

## Cyflogau, Graddfeydd a Buddion

Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol yr AMC fydd yn gyfrifol am yr holl bolisïau ar gyflogau a buddion i staff GLIEM, gan gynnwys trafodaethau cyflog, a fydd yn cael eu cynnal mewn ymgynghoriad â GLIEM a'r undebau llafur. Rhaid i Fwrdd Corfforaethol yr AMC a Thrysorlys Ei Mawrhydi gytuno ar y cylch cyflog. Bydd AD yr AMC yn ymgynghori â Bwrdd Corfforaethol GLIEM am y cylch cyflog arfaethedig.

Wrth drosglwyddo i GLIEM, bydd cyflogau a thelerau ac amodau gweithwyr Pwyllgor y Llysoedd Ynadon yn cael eu diogelu. Bydd AD yr AMC yn cynnal adolygiad o gyflogau a graddfeydd yn 2005-06 ar draws yr AMC a GLIEM. Bydd argymhellion yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd yn cael eu rhoi ar waith o 2006 ymlaen. Bydd AD yr AMC yn cynnal a chwblhau ymarfer a fydd yn edrych ar opsiynau pensiwn ar gyfer y staff sy'n trosglwyddo o'r Pwyllgor Llysoedd Ynadon i'r AMC erbyn Rhagfyr 2005.

## Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer penodiad lefel SASC/SLC.

Rhaid i'r penodiad hefyd gael ei gymeradwyo gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol, y Prif Weinidog ac, oherwydd ei gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan Drysorlys EM.

Cytunir ar dâl y Prif Weithredwr yn unol â'r trefniadau ar gyfer aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (Band Cyflog 3). Cytunir ar y dyfarniadau cyflog blynyddol yn unol â'r trefniadau gwobrwyo a rheoli perfformiad ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil.

# Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth

9

Mae Grŵp e-Gyflwyno (e-DG) yr AMC wedi datblygu strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) ar gyfer seilwaith yr AMC a fydd yn cefnogi'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth o fewn ei hasiantaethau gan gynnwys GLIEM. Bydd y Grŵp e-Gyflwyno hefyd yn datblygu Strategaeth Systemau Gwybodaeth (SG) yn benodol ar gyfer GLIEM sy'n cefnogi strategaeth fusnes yr asiantaeth. Bydd y Strategaeth SG yn gosod strategaeth a map ffyrdd ar gyfer datblygu systemau gwybodaeth sy'n cefnogi amcanion y busnes.

Bydd y Strategaeth TG yn cefnogi'r busnes drwy sicrhau:

- bod datblygiadau TG yn cydymffurfio â safonau'r llywodraeth o ran cadernid, capasiti a pherfformiad;
- bod datblygiadau TG yn gallu diwallu'r galw am dwf busnes;
- bod y busnes yn bodloni safonau data er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau i gyfnewid data gyda chwsmeriaid a phartneriaid; a
- bod safonau datblygu'n cefnogi'r gwaith o sicrhau gwerth gorau gyda chaffael, cefnogaeth a datblygu yn y dyfodol.

Bydd y Strategaeth SG yn cefnogi'r busnes drwy sicrhau:

- bod systemau cefnogi datblygiadau gyda'r strategaeth fusnes yn cael eu cynllunio i gyflawni:
  - canoli,
  - gwaith cefn swyddfa, a
  - rheoli dogfennau;
- bod datblygiadau'n rhoi'r hyblygrwydd gorau posibl i'r busnes trwy fynediad o unrhyw ran o'r seilwaith ac yn sicrhau eu bod yn hawdd i'w defnyddio;
- y ceir y budd gorau posibl i'r busnes o fuddsoddiadau trwy osgoi dyblygu, ailddefnyddio technoleg, a defnyddio atebion sydd ar gael yn fasnachol;
- y ceisir llai o gymhlethdod yn y diffiniad o'r gofynion; ac
- y bydd nifer cyffredinol yr atebion mewn meysydd busnes tebyg yn cael eu lleihau.

Cyflwynir gwasanaethau TG i GLIEM trwy fodel o wasanaethau a rennir a ddarperir gan e-DG gan weithio mewn partneriaeth â rheolwyr yn y maes.

# Adolygu ac Amrywio'r Ddogfen Fframwaith

10

Adolygir y Ddogfen Fframwaith hon yn ffurfiol o leiaf bob tair blynedd gan yr AMC mewn ymgynghoriad â GLIEM. Fodd bynnag, gall yr AMC neu GLIEM gynnig newidiadau unrhyw bryd, a bydd y Gweinidog yn gyfrifol am ymgynghori â phawb sy'n gysylltiedig â'r cynigion ar gyfer newidiadau, gan gynnwys un o Weinidogion y Trysorlys a'r Arglwydd Brif Ustus.

Bydd copïau o'r Ddogfen Fframwaith hon ac unrhyw ddiwygiadau dilynol yn cael eu cyhoeddi a'u gosod yn llyfrgelloedd y ddau Dŷ Seneddol. Mae copïau ar gael oddi ar y wefan GLIEM.

Bydd unrhyw gwestiynau ynghylch y dehongliad o'r ddogfen hon yn cael eu hateb trwy gytundeb rhwng yr AMC a GLIEM. Gwneir unrhyw amrywiadau i ddarpariaethau'r Ddogfen Fframwaith trwy gytundeb ysgrifenedig rhwng GLIEM a'r AMC, gan gynnwys Trysorlys EM os yw'n briodol.

# Atodiad

## Dirprwyaethau Ariannol

1 Mae GLIEM fel asiantaeth weithredol a changen gyflenwi i'r AMC, gyda'i Brif Weithredwr yn aelod o Bwyllgor Gweithredol a Bwrdd Corfforaethol yr AMC, yn cyfrannu at yr adrodd rheolaidd a wneir gan yr AMC yn gyffredinol ar gyllid, risg a pherfformiad.

2 Bydd GLIEM yn ceisio cymeradwyaeth, trwy Grŵp Cyllid yr AMC, ar gyfer ymrwymiadau gwariant y mae angen cael cytundeb Trysorlys EM iddynt. (Mae'r trothwyon yn cael eu hadolygu a phennir lefelau newydd yn ystod 2005. Mae'r rhestr o'r lefelau presennol wedi'i hatodi).

3 O fewn GLIEM, ymgymerir ag ymrwymiadau gwariant dan strwythur o ddirprwyaethau a bennir gan y Prif Weithredwr, gyda chysyniad Bwrdd Corfforaethol GLIEM yn ôl yr angen, yn unol â safonau llywodraethu corfforaethol yr AMC. Bydd y rhain yn darparu dirprwyaeth effeithiol i reolwyr busnes a'r cyfrifoldeb ymarferol uchaf ar eu cyfer yn gyson â sicrwydd a rheolaeth gorfforaethol.

4 I gefnogi rheolaeth ariannol gorfforaethol yr AMC, bydd GLIEM yn rhoi gwybod i Grŵp Cyllid yr AMC am y disgwyliadau a'r ymrwymiadau o ran gwariant ar gyfer y dyfodol, a bydd yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i Grŵp Cyllid yr AMC am newidiadau sylweddol i'r ymrwymiadau, er mwyn i Bwyllgor Gweithredol yr AMC reoli'r cyllidebu cyffredinol. Bydd y trefniadau'n amrywio o bryd i'w gilydd. (Ar y cychwyn, bydd hyn yn berthnasol yn benodol i wariant ar adnoddau newydd a all fod yn fwy na £1m y flwyddyn).

5 Rheolir gwariant cyfalaf GLIEM yn unol â strategaeth fuddsoddi y cytunir arni yn rhagolygol fel rhan o Strategaeth Fuddsoddi lawn yr AMC, a'i diweddaru bob blwyddyn. O fewn hyn, bydd GLIEM yn hysbysu Grŵp Cyllid yr AMC o ddyddiadau a gwerthoedd disgwyliedig yr ymrwymiadau sydd yn yr arfaeth.

6 Yn fwy cyffredinol, bydd GLIEM yn trafod gyda Grŵp Cyllid yr AMC y cynigion sydd, yn ôl gwerth, hyd neu newid i'r strwythur darparu, o arwyddocâd strategol i'r AMC.

7 Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol yn rhestru'r gofynion arbennig ar rai categorïau o wariant.

## Dirprwyaethau Ariannol

| Swyddogaeth | Swm ac Amodau |
|---|---|
| Adeiladau newydd | £8.5m* |
| Addasu adeiladau | £2.5m* |
| Prynu offer Technoleg Gwybodaeth (TG) | £1m*<br>(cyfanswm cost y prosiect, gan gynnwys cost ymgynghorwyr) |
| Dileu benthyciadau pontio | £0.04m |
| Taliadau arbennig a symiau i'w dileu | Dim terfyn ariannol, ond Cyfarwyddiaeth Cyllid yr AMC i gael gwybod am bob achos newydd a/neu ddadleuol a'r rhai sy'n debygol o arwain at daliad o fwy na £0.1m. |

* yr un fath â'r ddirprwyaeth gyffredinol sy'n cael ei dal gan yr AMC